# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Cartref Gofal Springbank**

**Cartref Nyrsio Springbank**
**College Road**
**Y Barri**
**CF62 8HS**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

13 Ionawr 2022

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***
*Gallwch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth a geir yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, ar unrhyw ffurf neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld Trwydded Agored y Llywodraeth ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Mae'n rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ynglŷn â Chartref Gofal Springbank

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth cartref gofal<br>Oedolion gyda gofal nyrsio |
| Darparwr cofrestredig | Springbank Care Home Limited |
| Lleoedd cofrestredig | 62 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg a Saesneg |
| Arolygiad diwethaf gan Arolygiaeth Gofal Cymru | 3 Mehefin 2019 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg? | Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg. Nid yw'n rhagweld, yn nodi nac yn diwallu anghenion Cymraeg y bobl / y plant sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu sy'n bwriadu defnyddio'r gwasanaeth. |

## Crynodeb

Mae Cartref Gofal Springbank yn rhoi gofal personol i bobl, y mae gan rai ohonynt anghenion nyrsio. Mae'r darparwr wedi penodi unigolyn cyfrifol. Mae'n goruchwylio ansawdd y ddarpariaeth o ofal. Mae rheolwr sydd wedi cofrestru'n addas yn goruchwylio'r gwaith o gynnal y gwasanaeth o ddydd i ddydd, gan fod yn enghraifft dda i'r staff trwy ddull ymarferol wrth gynnal dyletswyddau gweinyddol. Mae'r holl staff yn cael eu cefnogi gan y sefydliad ac maent yn teimlo'n hapus yn eu gwaith.

Mae'r bobl yn derbyn gofal caredig ac ystyriol gan staff gofal cymwysedig wedi'u hyfforddi. Mae anghenion iechyd yn cael eu diwallu. Mae'r dull o roi meddyginiaeth yn ddiogel. Mae'r ddarpariaeth o fwyd yn dda. Mae'r bobl yn hapus ac yn mwynhau cymryd rhan mewn gweithgareddau o'u dewis. Mae angen gwneud gwelliannau ynghylch cofnodi gweithgareddau. Mae cynlluniau gofal yn cael eu hadolygu, ond nid ymgynghorir drwy'r amser â chynrychiolwyr y bobl fel rhan o'r broses hon. Mae'r bobl a'u teuluoedd yn dweud wrthym fod y gwasanaeth yn dda iawn a bod y staff yn siriol ac yn hyfryd.

Mae'r adeilad yn addas at ei ddiben ac mae offer addas ar gael i ddiwallu anghenion gofal. Mae'r amgylchedd yn ddiogel, yn gynnes ac yn olau. Mae ymweliadau'n cael eu rheoli gyda mesurau ar waith i gadw pawb yn ddiogel, yn sgil y pandemig presennol.

Cynhelir yr arolygiad hwn 22 mis ar ôl dechrau pandemig COVID-19, lle mae gan y llywodraeth gyfyngiadau ar waith yn sgil yr amrywiolyn diweddaraf o'r feirws.

## Llesiant

Yn gyffredinol, mae'r bobl sy'n byw yn Springbank yn hapus gyda'r wybodaeth maent yn ei derbyn, gan wneud sylwadau megis "*Mae'n gartref oddi cartref*" ac "*ni ellid gwneud unrhyw beth yn well.*" Mae gan y bobl wybodaeth i gefnogi dewisiadau ac maent yn cael eu hannog i wneud penderfyniadau bob dydd. Pan fydd y bobl heb y galluedd, gwneir atgyfeiriadau i sicrhau bod ganddynt gynrychiolwyr wedi'u penodi, ond nid ydynt bob amser yn cael eu gwahodd i fynychu adolygiadau o gynlluniau gofal. Gwrandewir ar bobl, a lle bo'n bosibl, mae dymuniadau'n cael eu bodloni.

Mae'r gwasanaeth yn cadw'r bobl yn ddiogel. Mae asesiadau risg ar waith i lywio camau gweithredu sydd eu hangen i gadw'r bobl yn ddiogel. Mae'r staff gofal a'r nyrsys yn derbyn hyfforddiant perthnasol, sesiynau goruchwylio a chymorth fel eu bod yn ymwybodol o'r risgiau a sut i'w lleihau. Mae mesurau atal a rheoli heintiau yn cael eu dilyn. Mae'r amgylchedd yn cael ei fonitro a'i gynnal a'i gadw i safon dda. Mae'r bobl yn cael y wybodaeth ddiweddaraf ac ymgynghorir â nhw. Mae'r adeilad yn ddiogel, ac mae rhannau'n cael eu monitro gan deledu cylch cyfyng fel yr amlinellir yn y datganiad o ddiben. Cymerir mesurau i amddiffyn y bobl rhag haint. Er bod rhai teuluoedd yn teimlo bod y rhain yn rhy lym, dywedodd rhai o'r bobl yn y gwasanaeth fod "*yr amddiffyniad rhag COVID-19 yn anhygoel*."

Mae'r cartref yn cynnig llety addas mewn tiroedd braf. Mae'r amgylchedd yn lân, yn daclus ac yn ymddangos yn braf. Fodd bynnag, gall rhai coridorau fod yn orlawn ar adegau pan fydd yr amser i roi meddyginiaeth yn cyd-daro ag amseroedd bwyd. Gall y bobl ddewis fynd i'r ardaloedd cymunol, ond mae nifer yn hoffi gwneud eu gweithgareddau unigol yn eu hystafelloedd gwely eu hunain. Mae digonedd o offer arbenigol yn cefnogi'r bobl gyda'u hanghenion iechyd a symudedd. Mae'r bobl yn derbyn gofal gan dîm o staff hapus sydd yn uchel eu cymhelliant.

Yn gyffredinol, roedd y teuluoedd yn canmol y tîm o staff a'r ddarpariaeth o ofal, gydag un unigolyn yn dweud "*maen nhw'n gofalu am X, does dim amheuaeth!*" Mae'r gwasanaeth yn sicrhau y cynhelir asesiadau cyn i unigolyn symud i'r cartref, er mwyn sicrhau y gellir diwallu anghenion. Mae dogfennau'n cefnogi'r staff i ddarparu'r gofal sydd ei angen. Mae'r cofnodion dyddiol yn dda, gan ganolbwyntio ar anghenion gofal iechyd y bobl. Nid yw rhyngweithio cymdeithasol â'r staff gofal bob amser yn cael ei nodi yn y dogfennau. Mae'r bobl yn cael y gofal cywir a gwneir atgyfeiriadau i wasanaethau allanol pan fydd angen, ac mewn modd amserol. Mae'r rheolwr yn archwilio'r cofnodion er mwyn llywio'r ddarpariaeth o ofal gan ragweld adnoddau y bydd eu hangen a  chyfathrebu hyn i'r tîm cyfan o staff. Mae'r bobl yn mwynhau deiet da ac yn cynnal pwysau iach.

## Gofal a Chymorth

Mae asesiadau manwl yn cael eu cwblhau i sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei chofnodi am unigolyn cyn iddo gael ei dderbyn i'r cartref. Mae'r gwasanaeth yn cofnodi pethau sy'n bwysig i'r bobl, megis diddordebau a allai fod ganddynt. Mae cynlluniau gofal yn cael eu datblygu mewn modd amserol gan ddefnyddio’r wybodaeth a gesglir. Mae'r rhain yn fanwl ac yn cyfarwyddo’r staff o ran sut i gefnogi unigolyn. Mae'r asesiadau risg perthnasol ar waith. Gwneir atgyfeiriadau at weithwyr proffesiynol neu asiantaethau priodol.  Dywedodd y rhan fwyaf o'r bobl wrthym eu bod yn derbyn gofal yn unol â'u cynllun gofal.

Gwelsom ofal sensitif yn cael ei roi gan weithwyr gofal a nyrsys cymwys. Mae ymyriadau cynnar yn sicrhau bod iechyd y bobl yn cael ei gynnal cyn belled ag sy'n bosibl. Dywedodd y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth fod “*y staff yn cymryd eu hamser wrth iddynt fy helpu i gyda gofal personol*” ac “*mae nhw mor dda*.” Disgrifiodd sawl unigolyn y staff fel “*hapus a siriol*,” ond dywedodd pobl hefyd “*nad oes amser ganddynt i stopio a siarad*”. Mae cydlynydd gweithgareddau cyflogedig yno, sydd weithio'n cael ei gefnogi gan aelodau eraill o'r staff i drefnu digwyddiadau a darparu gweithgareddau un i un. Nid yw'r cofnodion dyddiol yn adlewyrchu lefelau’r rhyngweithio cymdeithasol a dderbynnir bob dydd gan y staff gofal. Mae gweithwyr iechyd proffesiynol yn eu cefnogi yn unol â’r cynlluniau gofal. Mae gwiriadau iechyd rheolaidd, megis pwysau'n cael eu cofnodi a'u monitro. Cynhelir cofnodion maethiad a hydradu da a dywedodd y bobl fod “*y bwyd yn dda*”.

Cynhelir adolygiadau cynlluniau gofal ac mae gwybodaeth yn cael ei diweddaru i sicrhau bod gofal yn cael ei ddarparu'n briodol. Gall aelodau'r teulu gyfrannu hefyd. Lle mae'r bobl heb y galluedd, er y gallant wneud penderfyniadau o ddydd i ddydd, nid yw cynrychiolwyr bob amser yn cymryd rhan mewn adolygiadau cynllun gofal. Mae diffyg tystiolaeth yn yr adolygiadau ynghylch pwy sydd wedi cymryd rhan, pryd, pa gamau sydd angen eu cymryd a chan bwy. Er nad oes angen cymryd camau ar unwaith, mae hwn yn faes i’w wella a disgwyliwn i'r darparwr weithredu. Byddwn yn mynd ar drywydd hyn yn yr arolygiad nesaf.

Mae'r gwaith o roi meddyginiaeth yn unol â'r gweithdrefnau ac mae wedi gwella ers yr arolygiad diwethaf. Mae system electronig bellach yn cael ei defnyddio. Ar ddiwrnod yr arolygiad, gwelsom un feddyginiaeth wedi'i storio sydd wedi mynd heibio i'w dyddiad dod i ben. Gwnaeth y rheolwr roi sylw i hyn ar unwaith, gan sicrhau bod y nyrsys yn gwella eu gwaith o arsylwi ar y manylion hyn. Rydym yn disgwyl i'r gwasanaeth gynnal y gwelliant hwn. Rydym hefyd yn disgwyl i'r gwasanaeth gynnal arferion gwell ynghylch cofnodi tymereddau ystafell ac oergell y meddyginiaethau.

## Yr Amgylchedd

Mae darparwr y gwasanaeth yn sicrhau bod yr eiddo a'r offer yn addas ac yn bodloni gofynion rheoliadol. Mae'r offer a'r eiddo yn cael eu cynnal a'u cadw yn rheolaidd ac yn cael eu profi pan fydd angen i sicrhau diogelwch pawb. Mae asesiadau risg ar waith. Cynhelir ymarferion tân a phrofion larwm tân yn rheolaidd. Mae'r gegin a'r gwaith o drin bwyd yn bodloni gofynion iechyd yr amgylchedd. Cynhelir archwiliadau ond nid yw'r rhain bob amser yn nodi manylion bach a allai wella'r amgylchedd. Gwelsom un clo ar goll mewn un ystafell, teils yn rhydd y tu ôl i un sinc ac roedd diffyg monitro tymheredd cyson yn y amgylchedd meddyginiaeth. Cymerodd y rheolwr gamau brys i fynd i'r afael â'r materion hyn. Mae'r darparwr wedi nodi meysydd lle y gallai wella'r amgylchedd, gyda chynlluniau i adnewyddu rhannau o'r adeilad, gan gynnwys yr ardd. Yn gyffredinol, mae'r cartref yn daclus, yn gynnes, yn olau ac wedi'i gyflwyno'n dda. Mae gardd ar gael gyda seddi. Dywedodd un person wrthym fod y darparwr yn gobeithio datblygu rhan o'r ardd er mwyn cynnwys rhandir gardd a chefnogi'r preswylwyr hynny sydd â diddordeb yn hyn. Mae'r adeilad yn ddiogel ac mae systemau monitro ar waith i helpu i amddiffyn y bobl.

Mae adeilad o'r enw “pod” wedi'i osod yn yr ardd i gefnogi teuluoedd i ymweld yn ystod y pandemig presennol. Cymerir mesurau rheoli heintiau i amddiffyn y bobl yn ystod y pandemig, gan gynnwys darparu cyfarpar diogelu ar draws yr adeilad. Mae trefniadau glanhau ychwanegol wedi'u rhoi ar waith ac mae nifer y bobl sy'n mynd i mewn i'r adeilad wedi'i ystyried, a lle y bo'n briodol, wedi'i gyfyngu. Mae asesiadau risg yn cefnogi'r penderfyniadau ynghylch hyn. Er y dywedodd rhai teuluoedd wrthym eu bod yn teimlo'n rhwystredig gan yr opsiynau ymweld cyfyngedig, dywedodd y rhan fwyaf o'r teuluoedd a'r bobl eu bod yn gwerthfawrogi'r mesurau a gymerir i'w cadw'n ddiogel.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae gan ddarparwr y gwasanaeth unigolyn cyfrifol enwebedig yn ei le sy'n cynnal ei ddyletswyddau â diwydrwydd dyladwy. Mae'n ymweld â'r gwasanaeth ac yn ymgynghori â'r bobl a'u teuluoedd er mwyn llywio datblygiad parhaus y gwasanaeth. Ym ystod y pandemig, ni fu'n bosibl cynnal cyfarfodydd â theuluoedd, ond defnyddiwyd dulliau ymgynghori amgen. Mae'r unigolyn cyfrifol yn darparu adroddiadau fel sy'n ofynnol o dan y rheoliadau. Mae rheolwr a enwyd yn gyfrifol am y gwaith o gynnal y gwasanaeth o ddydd i ddydd. Mae'r rheolwr a'r tîm ehangach o staff yn canmol y cymorth y maent yn ei dderbyn gan y darparwr, trwy'r unigolyn cyfrifol. Mae polisïau a gweithdrefnau ar gael ac maent yn cael eu hadolygu.  Mae dogfennau i roi gwybod i bobl am y gwasanaeth, gan gynnwys '*datganiad o ddiben*' a '*chanllaw i ddefnyddwyr y gwasanaeth*' ar gael ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

Mae systemau ar waith i gefnogi'r gwaith o gynnal y gwasanaeth o ddydd i ddydd, wedi'i oruchwylio gan y rheolwr. Mae'r rheolwr yn drefnus iawn, yn wybodus iawn ac mae'n cael ei barchu. Mae'n ymgymryd â rôl weinyddol y rheolwr, ond hefyd yn cynnal dealltwriaeth o anghenion gofal y bobl gan ei fod yn darparu gofal yn rheolaidd er mwyn cefnogi'i wybodaeth. Yn ystod y pandemig, ni chynhaliwyd cyfarfodydd rheolaidd â thimau o staff amrywiol, ond mae'r rheolwr yn cynnal sesiwn friffio bob dydd i bob pennaeth adran. Pan fydd amgylchiadau'n caniatáu, rydym yn disgwyl i gyfarfodydd fod yn fwy cynhwysol o'r holl staff gyda chyfleoedd i drafod materion yn fanwl.

Mae digon o staff sy'n meddi ar brofiad a chymwysterau addas. Mae gweithwyr gofal yn derbyn cyfnod sefydlu a hyfforddiant priodol. Mae'r darparwr yn annog datblygiad staff ac yn cefnogi dysgu trwy gymhellion y mae'r staff yn eu gwerthfawrogi. Mae gwaith recriwtio yn cael ei wneud yn ddiogel, a chynhelir yr holl ddogfennau angenrheidiol ar ffeiliau personél. Mae'r holl staff, gan gynnwys y staff gofal, yn cael cyfarfodydd goruchwylio rheolaidd ac arfarniadau blynyddol. Mae'r nyrsys yn cael sesiynau goruchwylio clinigol ac yn cynnal eu dealltwriaeth glinigol i gefnogi eu cofrestriad fel nyrs. Dywedodd yr holl staff yr ymgynghorwyd â nhw eu bod yn hapus yn gweithio yn y cartref a'u bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi yn eu rôl.

| Crynodeb o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chyflawnwyd. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfedd yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn yr arolygiad nesaf. |
| **Ni chyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac fe'i cyflawnwyd. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan fo canlyniadau gwael ar gyfer pobl, a/neu risg i lesiant pobl, yn cael eu nodi drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau brys i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu cymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y gallwn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwelliant a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond ni nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes/Meysydd i'w Gwella |
|---|

| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
|---|---|---|
| 16 | Nid ymgynghorir â phobl bob amser, ac nid oes ganddynt gynrychiolaeth briodol pan fydd cynlluniau gofal yn cael eu hadolygu. | Newydd |
| 21 | Nid yw gweithgareddau a rhyngweithiadau i gefnogi unigolion â'u llesiant emosiynol a meddyliol bob amser yn cael eu dogfennu. | Newydd |

**Dyddiad cyhoeddi** 24/02/2022